Llywodraeth Cymru
Ymgynhoriad



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 (M4CEM)

Cylchlythyr **2**

Lleddfu'r llif

Mae angen eich help *chi* arnom i lunio strategaeth i leihau tagfeydd traffig ar yr M4, Magwyr i Gas-bach

Beth yw'r broblem?

Mae pawb ohonom bron yn eu defnyddio: cerbydau modur yw'r prif ddull teithio yng Nghymru, fel yn y DU gyfan. A thagfeydd cynyddol yw un o'r problemau trafnidiaeth mwyaf difrifol a wynebwn, gan y gall leihau effeithlonrwydd a chynhyrchiant, ac mae hynny yn ei dro yn ein gwneud ni'n llai cystadleuol. Mae hefyd yn achosi problemau mynediad a llygredd yn lleol.

Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o wella mynediad (e.e. i ysgolion, ysbytai, gweithleoedd, cyfleusterau hamdden) ac i ddatblygu trafnidiaeth ddiogel, fforddiadwy a chynaliadwy i bawb, gan gynnwys y rheiny sy'n cerdded, yn beicio ac yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus – ac i wella rhwydweithiau ffyrdd a rheilffyrdd.

Un flaenoriaeth allweddol yw gwella trafnidiaeth o'r dwyrain i'r gorllewin – sy'n ein cysylltu ni oll â chyfleoedd ledled Cymru a thu hwnt. Mae lleddfu'r llif ar yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach, a mynd i'r afael â phroblemau cysylltiedig sy'n effeithio ar y rhwydwaith priffyrdd ehangach yn ardal y coridor hwn, yn elfen allweddol o'r ymrwymiad hwn.

Sut gallwch chi helpu

Mae angen i ni wybod pa **broblemau** rydych yn eu hwynebu, deall beth yw eich **blaenoriaethau** chi, a gofynnwn i chi ein helpu i ddewis **strategaeth orau** i ddatrys y problemau hynny.

Y llynedd, aeth grŵp yn cynrychioli ystod eang o bobl sy'n defnyddio ac yn rheoli'r rhwydwaith

Gellir lawrlwytho copïau pellach o'r cylchlythyr hwn yn www.m4cem.com
Mae'r cylchlythyr hwn ar gael mewn print bras hefyd. Cysylltwch â m4cem@arup.com

ARUP

I gael mwy o wybodaeth ewch i www.cymru.gov.uk/ymgynghoriadau neu www.m4cem.com

trafnidiaeth a/neu wasanaethau mynediad ar Goridor yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach ati i ddechrau adeiladu ar yr hyn y mae pobl wedi dweud wrthym am y problemau maent yn eu hwynebu, a'r nodau yr hoffent eu gweld yn cael eu cyflawni gan y Rhaglen hon. Aethant ati i archwilio amrywiaeth o opsiynau er mwyn datrys y problemau. Nawr, rydym am glywed beth yw eich barn chi ar yr atebion a gynigiwyd.

Mae ymgynghoriad, sydd ar agor i bawb, yn dechrau ar 6 Mawrth, ac mae'n parhau hyd 6 Mehefin 2012. Bydd llawer o gyfleoedd gwahanol – mewn arddangosfeydd a gweithdai, ar-lein a thrwy holiaduron – i chi ddweud eich barn wrthym, a thrwy wneud hynny byddwch yn ein helpu ni i bennu strategaeth gadarn i hwyluso'r llif ar yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach, a gwneud i'r system drafnidiaeth weithio'n well i'r dyfodol.

Os hoffech wybod mwy:

- Ewch i'n gwefan: www.cymru.gov.uk/ymgynghoriadau
- Trowch at www.m4cem.com i gael llawer mwy o wybodaeth gefndir, gan gynnwys adroddiadau technegol.
- Ewch i un o'n **harddangosfeydd** neu **weithdai**, lle byddwn yn disgrifio ystod o ddulliau gwahanol o gyflawni'r nodau. Mae pob un o'r mesurau hyn yn rhoi sylw i'n blaenoriaethau ehangach, sef gwneud i'r system drafnidiaeth weithio'n well er mwyn helpu mynd i'r afael â thlodi, cynyddu lles, cynorthwyo twf economaidd a lleihau'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â theithio.

Os hoffech ddweud eich barn wrthym:

Gallwch gofnodi'ch barn ar-lein - dilynwch ydolenni ar unrhyw un o'r gwefannau a restrir yma, neu ar bapur, gan ddefnyddio ffurflen sydd ar gael mewn llawer o adeiladau cyhoeddus o amgylch Casnewydd, neu gallwch lawrlwytho un o www.cymru.gov.uk/ymgynghoriadau neu www.m4cem.com

Pwy sy'n gwneud y penderfyniad terfynol a pha bryd fyddwn ni'n gweld gwelliannau ar yr M4?

Gan ystyried yr adborth a geir yn ystod yr ymgynghoriad, bydd Llywodraeth Cymru'n penderfynu ar y strategaeth fwyaf effeithiol i leddfu'r llif ar yr M4, a lleihau pwysau ar y rhwydwaith priffyrdd rhwng Magwyr a Chas-bach dros yr ychydig flynyddoedd nesaf ac i'r dyfodol.

Caiff y strategaeth ei chyhoeddi tua diwedd 2012 a bydd cynllun ar gyfer y prosiect yn cael ei lunio gan y tî m yn dilyn penderfnyiad y Gweinidog.

GWEITHDY (10yb-3yp)

(Rhaid neilltuo ymlaen llaw)

Dydd Mawrth 13 Mawrth
Casnewydd – Tŷ Tredegar NP10 8YW
Dydd Iau 15 Mawrth
Caerdydd – Neuadd yr Urdd CF10 5AL
Dydd Mawrth 20 Mawrth
Abertawe – Ystafell Dderbyn yr Arglwydd Faer, Neuadd y Ddinas SA1 4PE

ARDDANGOSFA

(12yp-7yp)

Dydd Mercher 28 Mawrth
Llysweri – Coleg Gwent Campws Dinas Casnewydd NP19 4TS
Dydd Iau 29 Mawrth
Magwyr – Eglwys y Bedyddwyr Ebenezer NP26 3HY
Dydd Gwener 13 Ebrill
Brynglas – Tŷ Brynglas NP20 5QU
Dydd Mawrth 17 Ebrill
Casnewydd – Canolfan Casnewydd NP20 1UH

Diolch

i bawb sydd eisoes wedi bod yn gysylltiedig â helpu gwella ein dealltwriaeth o faterion trafnidiaeth ar Goridor yr M4, rhwng Magwyr a Chas-bach. Gobeithiwn y bydd llawer mwy o bobl yn helpu llunio'r strategaeth!

75% wedi'i ailgylchu recycled

© Hawlfraint y Goron, Chwefror 2012

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â m4cem@arup.com neu ffoniwch 029 2047 3727